# Gŵyl Fwyd Traeth Rhisga – Digwyddiadau 2026

**Bydd y brif raglen adloniant rhwng 10am a 4pm. Mae rhai gweithgareddau'n digwydd drwy'r dydd ac eraill yn digwydd nawr ac yn y man drwy gydol y dydd.**

## Traeth Enfawr



Bydd traeth anferth, yn llawn cadeiriau cynfas a theganau traeth, yn dod i Diroedd Tredegar, gan gynnig amgylchedd diogel ar gyfer diwrnod o hwyl ar y traeth i ddiddanu pawb. Dewch â phicnic, prynu gan y consesiynau ar y safle, neu #DewisLleol a chefnogi'r manwerthwyr yng nghanol y dref.

## Arddangosiadau Coginio - Artisan Cooks



Dewch i ymuno â Clover Hunter am ddiwrnod llawn arddangosiadau coginio hawdd. Bydd ryseitiau i roi cynnig arnyn nhw gartref, yn ogystal â dosbarthiadau coginio i blant. Dewch â'ch cogyddion bach addawol i goginio gyda Clover!

**Dosbarthiadau i blant**

*Dewch i wneud eich creadigaethau eich hun ym mhabell coginio'r plant!*

10.15am Cwcis siocled
11.45am Creu pizza
1.15pm Rocedi a choctels pefriog
2.45pm Addurno cacenni cwpan

**Arddangosiadau**

*Gwyliwch arddangosiadau coginio byw i gael llawer o ysbrydoliaeth coginio!*

11.00am Tacos feta wyau a tsili hawdd
12.30pm Cyri penfras tikka gwyrdd
2.00pm Llysiau a radisys wedi'u rhostio gyda menyn brown a ricotta
3.30pm Bricyll mêl wedi'u rhostio, mascarpone a phistachios

Gwefan: **www.artisancooks.co.uk / www.thomaskittencookery.co.uk**

## Sioeau Pwnsh a Jwdi AM DDIM



Dewch i fwynhau sioe Punch & Judy i'r teulu cyfan sy'n gwneud i bawb chwerthin—o wyrion ac wyresau i neiniau a theidiau. Mae'r sioe wedi ymddangos mewn lleoliadau mawr, gan gynnwys Stadiwm Principality (Caerdydd), ac mewn cynyrchiadau BBC.

Cynhelir y sioe am 11am, 1pm a 3pm bob dydd.

**Facebook: Carl John the Magic Man**

## *Falconry UK*



Birds of prey will be on display for visitors to look at, have photographs with and to learn about the fascinating facts and background of these amazing creatures.

**Facebook: Falconry UK**

## Glitter Girls



Trawsnewidiwch yn dywysog, tywysoges, archarwr neu anifail. Mae gan Glitter Girls y ddawn hudol i'ch trawsnewid chi'n gymeriad o'ch dewis, gan ychwanegu lliw a gliter i wneud i chi ddisgleirio! Neu beth am gael tatŵ gliter disglair neu gemau wyneb!

**Facebook: Fab Faces**

## *Reidiau ar gefn asynnod*




Mae plant wrth eu bodd â'r anifeiliaid blewog hyn. Reidiau AM DDIM ar gael trwy'r dydd!

**Facebook: Mike's Donkeys**

## *Stondinwyr*



Bydd nifer o stondinau yn gwerthu olifau, losin a chacennau ynghyd ag amrywiaeth o fasnachwyr crefftau a gwybodaeth.

**Facebook: Visit Caerphilly**

# Bwyd Stryd




Bydd stondinau bwyd stryd amrywiol yn darparu prydau blasus! Byrgyrs suddlon, bwyd Jamaicaidd, prydau Tsieineaidd, pizzas, gyros, paella, tatws ar ffurf troell – bydd rhywbeth at ddant pawb.

***Facebook: Visit Caerphilly***

# Reidiau ac atyniadau ffair bleser




Bydd amrywiaeth o reidiau i blant, gan gynnwys tŷ hwyl a chwpanau te i ddifyrru'r plant bach! Yn ogystal â reid Twister i blant yn eu harddegau!

## *Theatr Stryd – Dydd Sadwrn*

**Môr-forynion**

11.30am, 1.00pm, 2.30pm




Facebook: Flying Colours

## *Theatr Stryd – Dydd Sul*

**Moch Mawreddog**

10.00am, 11.30pm, 1.00pm



Facebook: Flying Colours

**Deifiwr gyda swigod**

11.00am, 12.30pm, 2.00pm



Facebook: Flying Colours

***(Gall y holl wybodaeth newid. Mae'r holl wybodaeth yn gywir ar adeg cynhyrchu.)***